# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



# BUTTRILLS

## Y Barri

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## I ystâd Buttrills yn y Barri

Mae Buttrills yn ffinio â Colcot tua'r gogledd ac yn cynnwys tiriogaeth i'r gogledd o Barry Road ac i'r de ar hyd Buttrills Road. Mae caeau chwarae Buttrills (a elwir yn The Butts) yn rhan uchaf yr ardal yn helaeth ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant a gemau pêl-droed penwythnos lleol. I'r dwyrain, ger y caeau chwarae, mae Mynwent y Barri. Mae Cherry Orchard yn dafarn leol boblogaidd ar Barry Road. Mae Cartref Nyrsio College Fields ychydig y tu ôl i hon.

## Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017- Mae 1,798 o bobl yn byw yn ardal Buttrills.
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae 164 o eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn yr ardal, ynghyd ag 1 eiddo lesddaliadaol a 24 garej. Mae 57 o dai, 95 o fflatiau, a 12 o fyngalos i bobl hŷn.  Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd cyn 1974.


Community Centre
COLCOT ROAD
NORTH WALK
MUNRO PL
ST FAGANS
ST ANDREW'S ROAD
TEILO AVENUE
LLOYD AVENUE
EAST WALK
WEST WALK
BUTTRILLS WK
SOUTH WALK
NEALE ST
PARDOE CRESCENT





# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?



# Beth yw ei nodau?



**Mae'r Cynllun Cymdogaeth hwn yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystâd.**

Mae'r cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystâd, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 52% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sydd ychydig yn is na chyfartaledd y Fro o 58%, yn dangos fod lle i wella.<br>Roedd cymdogion swnllyd yn bryder i nifer yn yr ardal gyda 66% o denantiaid yr ardal yn nodi bod hon yn broblem, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Fro o 33%.<br>Hefyd mae defnyddio cyffuriau yn cael ei ystyried yn broblem yn yr ardal gyda 45% o denantiaid yn gweld hyn fel pryder, sydd eto'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Fro o 26%.<br>O blith y rhai a ymatebodd i'r arolwg diweddar, nododd 84% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn byw yn yr ardal.<br>"Rwy'n teimlo'n gyffyrddus iawn yma, mae'r cymdogion yn hyfryd ac rwy'n hoff o'r parcio oddi ar y ffordd" |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 77% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 76% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 53% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn sy'n is na chyfartaledd y Fro o 65%.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, nododd 84% o denantiaid a ymatebodd eu bod yn adnabod Tîm Rheoli Cymdogaeth yr ardal. |
| Galw am gartrefi | Mae galw rhesymol am gartrefi yn yr ardal hon gyda 26 ymgeisydd ar gyfartaledd yn cynnig am eiddo pan fyddant yn cael eu hysbysebu i'w hail-osod.<br>"Mae ailddatblygiad yr ystâd yn rhagorol ac mae'r Tîm Cymdogaeth i'w weld - sy'n wych!" |
| Mynediad at wasanaethau | Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd i mewn i ganol tref Y Barri neu ymweld ag archfarchnadoedd yn hawdd. |
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 76% o denantiaid yr ystâd fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian.<br>Dim ond 33% o denantiaid sydd mewn ôl-ddyledion rhent sy'n well na chyfartaledd y Fro o 31%.<br>Mae cyfran uchel o'r tenantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i dalu eu costau tai. |
| Atgyweirio | Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod.<br>Roedd 66% o denantiaid yr ystâd yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 67% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau uchel o ddiweithdra o'i gymharu â chymdogaethau eraill yn Y Barri, gyda 2% o bobl o oedran gweithio yn hawlio JSA o'i gymharu â 1% ar draws y Fro. |
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i gymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd.<br>Yn ddiweddar, rhannodd 58% o denantiaid fod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt. |

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Trosiant eiddo | Daeth 22 eiddo yn wag y llynedd sef 13% o'r stoc dai yn yr ardal. |
| Tenantiaid gweithgar | Mae Bwrdd Preswylwyr hirsefydlog sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yn yr ystâd. Mae'r Bwrdd wedi ymgyrchu'n frwd dros yr ardal ac mae'n darparu nifer o weithgareddau i deuluoedd fel tripiau dydd. Mae'r grŵp yn rhagweithiol wrth hyrwyddo hawliau tenantiaid a dwyn y Cyngor i gyfrif am wasanaethau a ddarperir.<br>"Mae gennym ni gymdogion da iawn"<br>"Ymdeimlad o gymuned" |
| Trosedd a niwsans | Mae lefelau troseddu uwch na'r cyffredin ar yr ystâd, gyda dwbl y nifer cyfartalog o fyrgleriaethau, nifer uchel o droseddau treisgar a mwy o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu hadrodd. |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 30% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd y Fro.<br>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o'i gymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod mwy o bobl na'r arferol gyda phroblemau symudedd o un math neu'i gilydd, a'u bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi, ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig. |
| Pobl ifanc | Mae nifer y bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal yn unol â chyfartaledd y Fro, ar oddeutu 19%.<br>Ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer Pobl Ifanc trwy Glybiau Ieuenctid, grwpiau cymdeithasol. |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol yn is nag ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 (86), 3 (102) a 4 (463); o'i gymharu â (89), (106) a (492).<br>Mae cyfraddau absenoldeb disgyblion yn uwch na chyfartaledd y Fro yn yr Ysgol Gynradd (6.3%) a'r Ysgol Uwchradd (9.2%) o'i gymharu â 5.9% a 7.9% ar draws y Fro. |
| Mannau agored | TMae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys nifer o ddarnau llai o fannau gwyrdd neu fannau parcio ar yr ystâd. |
| Graddfeydd yr ystâd | Graddiad cyffredinol yr ystâd yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ystâd. |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystâd

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

| **Barn/sylwadau preswylwyr** | |
|---|---|
| Mae'r ardal â throsiant uwch o eiddo na'r cyfartaledd. | Mae amlder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn uchel ond mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo. Ardal y garejys - ymddangosiad gwael. |
| Mae ymddangosiad yr ardal wedi gwella yn ddiweddar gyda rhai mannau agored nad ydynt yn cael eu defnyddio'n dda gan y gymuned. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn wael ac mae ganddi olwg a naws ystâd Gyngor draddodiadol. | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn. | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys gwael. |
| Mae'r tîm Cymdogaeth yn siarad â phreswylwyr ac yn gweithio'n weithredol gydag unrhyw fforymau preswylwyr neu grwpiau ymgynghori.<br><br>Teimlir bod diffyg cyfleoedd i gael mewnbwn rheolaidd gan breswylwyr ar draws y gymdogaeth gyfan.<br><br>Mae'r ardal wedi gwella yn ddiweddar<br><br>Bwrdd Preswylwyr Cryf<br><br>Mannau gwyrdd da<br><br>Digwyddiadau galw heibio<br><br>Ymgysylltiad lleol â thenantiaid | |

## Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth, gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain
- Atgyweirio a chynnal a chadw yn cael ei gwblhau i safon uchel mewn modd amserol
- Rhent gwerth am arian

## Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Gwella diogelwch cymunedol
- Adeiladu cysylltiadau cymunedol da yn yr ardal
- Sicrhau bod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu cwblhau i safon uchel ac yn amserol

# Camau Gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Materion amgylcheddol | | |
| Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth.<br>Gan gynnwys adolygu trefniadau cyfredol storio biniau ac archwilio datrysiadau creadigol gyda thenantiaid lleol. | Gwella ymddangosiad y gymdogaeth. | O fewn 6 mis |
| Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystâd i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensio ayb. | Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br>Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin. | O fewn 6 mis |
| Datblygu rhaglen wella ar gyfer y safleoedd garejys i ddod â'r lle yn ôl i ddefnydd | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella trefniadau parcio lleol. | O fewn 12 mis |

# Camau Gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Ymgymryd ag adolygiad o ddarpariaeth cyfleusterau chwarae lleol mewn ymgynghoriad â phreswylwyr. | Datblygu lleoedd chwarae diogel i blant a phobl ifanc.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Adolygu'r ardal chwarae bresennol i blant yn Awbery House. Ailgynllunio'r defnydd o'r gofod hwn a chynyddu diogelwch yn yr ardal. | Gwella diogelwch cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon, gan gynnwys baeddu cŵn.<br>Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. | O fewn 6 mis |
| Gweithio gydag adran Barciau'r Cyngor i adolygu'r gwasanaeth casglu sbwriel cyfredol a nifer y biniau sbwriel yn yr ardal i weld a ellir gwella hyn.<br>Edrych ar atebion yn y gymuned i gynyddu casglu sbwriel fel cynlluniau cynnwys tenantiaid gan ddefnyddio Bancio Amser. | Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. | O fewn 6 mis |
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Cynyddu'r wyliadwriaeth ffisegol mewn mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) gan weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Bro Ddiogelach | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 12 mis |
| Sefydlu gweithgareddau Gwarchod Cymdogaeth i gynyddu lefel gwyliadwriaeth yn y gymdogaeth ac felly cynyddu'r teimlad o ddiogelwch a grymuso yn erbyn trosedd, gan gynnwys nodi tenantiaid agored i niwed sydd wedi, neu a allai fod wedi, dioddef trosedd. | Lleihau lefelau fandaliaeth a chynyddu teimladau o ddiogelwch i breswylwyr sy'n teimlo'n agored i droseddu. Bydd datblygu strategaeth atal troseddau tymor hir yn sicrhau dull plismona cyson. | O fewn 6 mis |

# Camau Gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Beicio ayb. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth. | O fewn 6 mis |
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gydag adrannau eraill y Cyngor, megis y Swyddfa Gorfodi Sifil, i leihau nifer y problemau gyda pharcio anystyriol. | Gwella diogelwch cymunedol. Gwella cyfleusterau parcio. | O fewn 6 mis |
| Adolygu'r trefniadau goleuo cyfredol mewn mannau parcio ceir a mannau cyhoeddus i weld a ellir gwella'r rhain. | Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 6 mis |
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, sefydliadau a thenantiaid i ddatblygu dewislen o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ardal, gan gynnwys sefydlu fforwm tenantiaid ieuenctid ar gyfer yr ardal (gan dargedu pobl ifanc 16 i 25 oed) | Gwella gwasanaethau lleol.<br>Adeiladu ymgysylltu cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Adolygu cyfleusterau a gweithgareddau cyfredol i bobl ifanc. | Gwella gwasanaethau lleol.<br>Adeiladu ymgysylltu cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Gweithio gyda'r Tîm Buddsoddi Cymunedol a'r Gwasanaethau Adeiladu i greu gofod cymunedol yn Awbery House, gan gynnwys ymgorffori cynnig digidol i denantiaid. | Gwella gwasanaethau lleol.<br>Adeiladu ymgysylltu cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.<br>Cynyddu mynediad at wasanaethau digidol. | O fewn 12 mis |
| Cynnal nifer o sesiynau cyngor ariannol a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol. | PDarparu cyngor ariannol a gwasanaethau cymorth i denantiaethau.<br>Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. | O fewn 6 mis |

# Camau Gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| **Active communities** | | |
| Hyrwyddo gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant yn yr ardal, gan gynnwys dosbarthu taflenni i eiddo, a phrojectau wedi'u targedu i gynyddu ymgysylltiad | Darparu cefnogaeth cyflogaeth a hyfforddiant.<br>Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 6 mis |
| Defnyddio Bancio Amser i recriwtio hyrwyddwyr cymunedol a bloc i hyrwyddo'r ardal leol a chroesawu tenantiaid newydd wrth symud i mewn. | Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth. Cynyddu ymgysylltiad cymunedol.<br>Gwella mannau gwyrdd a'r amgylchedd lleol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 6 mis |
| Gweithio gyda'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i sefydlu cystadleuaeth "Buttrills in Bloom", bydd hyn yn cynnwys uwchsgilio tenantiaid ar sut i gynnal eu gerddi, tyfu planhigion, gofalu am y gerddi cymunedol a chreu basgedi crog arloesol neu arddangosfeydd "gardd mewn bin" | Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth. Cynyddu ymgysylltiad cymunedol.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella mannau gwyrdd a'r amgylchedd lleol.<br>Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal. | O fewn 12 mis |
| Ail-frandio'r ardal leol i ddangos i denantiaid y dyfodol y pethau cadarnhaol sydd ganddi i'w cynnig er mwyn herio safbwyntiau negyddol sydd gan bobl, gan gynnwys defnyddio fflatiau arddangos a thaflenni neu hysbysebion hyrwyddo am yr ardal. | Adeiladu cysylltiadau cymunedol cryf. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 3 blynedd |
| Gweithio gyda Buddsoddiad Cymunedol i ystyried buddion sicrhau cyllid i ddatblygu cerbyd cymunedol, debyg i TREV, i redeg gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau cynhwysiant digidol symudol. | Adeiladu cysylltiadau cymunedol cryf. Darparu gweithgareddau cymunedol. Cynyddu'r cynnig digidol i denantiaid. | O fewn 3 blynedd |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Datrysiadau Tai i adolygu'r defnydd a rheolaeth o lety dros dro yn yr ardal. | Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda swyddogaethau eraill yn y Gwasanaeth Rheoli Tai i wella ein cyfathrebu digidol â thenantiaid, gan gynnwys anfon datganiadau rhent trwy e-bost yn hytrach na datganiadau drwy'r post os gofynnir am hynny. | Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. Cynyddu'r cynnig digidol i denantiaid.<br>Datblygu dewislen o gyfathrebiadau sydd ar gael i denantiaid - gwasanaethau wedi'u teilwra. | O fewn 12 mis |

# Sut i gysylltu â ni:

## Dros y ffôn:

01446 700111

## Drwy e-bost:

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes   Cartrefi'r Fro

## Yn ysgrifenedig:

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

## Drwy'r we:

www.bromorgannwg.gov.uk

## Yn bersonol:

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener